


PARTNERIAETH OGWEN

# Pecyn Croeso Gwirfoddolwyr
# Volunteers Welcome Pack

## 26 Stryd Fawr, Bethesda LL57 3AE

partneriaethogwen.cymru

@PartneriaethOg

partneriaethogwen

PartneriaethOgwen

Rydym yn gwerthfawrogi eich diddordeb mewn gwirfoddoli gyda Phartneriaeth Ogwen. Mae gennym amrywiaeth o gyfleoedd gwirfoddoli yn cynnwys rolau o dan do ac awyr agored felly mae yna rywbeth i bawb.

Mae'r pecyn yma yn cyflwyno gwybodaeth amdan waith a phrosiectau Partneriaeth Ogwen a Dyffryn Gwyrdd. Gobeithiwn y bydd y pecyn yma o ddefnydd i chi. Os oes gennych gwestiynau neu eisiau mwy o wybodaeth, defnyddiwch y wybodaeth gyswllt a ddarperir o dan bob prosiect.

**Gallwch hefyd gyfeirio at ein Llawlyfr Gwirfoddolwyr am ragor o wybodaeth.**

We appreciate your interest in volunteering with Partneriaeth Ogwen. We have a variety of volunteering opportunities, both indoor and outdoor, so there's something for everyone.

This pack gives information about the work that Partneriaeth Ogwen and Dyffryn Gwyrdd carry out. We hope this packet will be of use to you. If you have questions or would like more information, please use the contact information provided under each project.

**You can also refer to our Volunteer Handbook for more information.**

# Croeso



Mae Partneriaeth Ogwen yn fenter gymdeithasol sydd yn gweithio er budd yr economi, amgylchedd a chymunedau Dyffryn Ogwen. Prif amcan Partneriaeth Ogwen ydi hyrwyddo a datblygu prosiectau sydd yn adfywio ac atgyfnerthu economi a chymuned Dyffryn Ogwen.

Sefydlwyd Partneriaeth Ogwen yn 2013, a hynny trwy gydweithio arloesol gan Gynghorau Cymuned Bethesda, Llanllechid a Llandygai i ddarparu gwasanaeth clercio i'r 3 chyngor ac i ddatblygu prosiectau cymunedol.

Ers ein sefydlu, rydym wedi agor Swyddfa Ogwen, Swyddfa Dyffryn Gwyrdd, Hwb Ogwen a Siop Ogwen ar Stryd Fawr Bethesda. Rydym hefyd yn rheoli eiddo yn cynnwys fflatiau, unedau busnes, Canolfan Cefnfaes a Llyfrgell Gymunedol Dyffryn Ogwen. Rydym hefyd wedi datblygu prosiectau amgylcheddol llwyddiannus yn cynnwys cynllun hydro cymunedol Ynni Ogwen a phrosiect y Dyffryn Caredig.

Am wybodaeth pellach am ein prosiectau a gwasanaethau, plis ewch i'n wefan partneriaethogwen.cymru

# Partneriaeth Ogwen

Partneriaeth Ogwen is a Social Enterprise that works for the benefit of the economy, environment and communities of the Ogwen Valley. The main objective of Partheriaeth Ogwen is to promote and develop projects that regenerate and strengthen the economy and community of the Ogwen Valley.

Partnerieath Ogwen was established in 2013, through innovative collaboration by Bethesda, Llanllechid and Llandygai Community Councils to provide a clerical service to the 3 councils and to develop community projects.

Since our establishment, we have opened Swyddfa Ogwen, Swyddfa Dyffryn Gwyrdd, Hwb Ogwen and Siop Ogwen on Bethesda High Street. We also manage property including apartments, businesses, Canolfan Cefnfaes, and Dyffryn Ogwen Community Library. We have also developed successful environmental projects including the Ynni Ogwen community hydro scheme and the Dyffryn Caredig project.

For more information on specific projects and services, please go to our website partneriaethogwen.cymru



# Dyffryn Caredig




Mae Dyffryn Caredig yn dilyn llwyddiant y Dyffryn Gwyrdd yn canolbwyntio ar drafnidiaeth cymunedol cynaliadwy - atebion amgylcheddol gyfeillgar i heriau lleol. Fe'i hariennir gan y Loteri Genedlaethol a bydd yn rhedeg am ddwy flynadd, rhwng Tachwedd 2023 a Hydref 2025.

Ein bwriad gyda'r Dyffryn Caredig yw cydweithio gyda'n cymunedau lleol i ddarparu fflyd o gerbydau a beics trydan fydd yn cynhorthwyo trigolion i gyrraedd apwyntiadau, digwyddiadau a chymdeithasu.

Dyffryn Caredig is a project funded by the National Lottery which will run for two years, between November 2023 and October 2025. This project will build on the work started by Dyffryn Gwyrdd to create a more environmentally conscientious community.

Our intention with Dyffryn Caredig is to work together with our local communities to provide a fleet of vehicles and electric bikes that will help our residents get to appointments, events and socialising.








# Siop Ogwen

Mae Siop Ogwen yn rhan ganolog o Stryd Fawr Bethesda. Mae’r Siop hefyd yn bwysig o ran hyrwyddo’r iaith Gymraeg trwy werthu llyfrau Cymraeg a chrefftau, gemwaith ac anrhegion gan gynhyrchwyr lleol.



Siop Ogwen is a central part of the Bethesda High Street. It is also important in terms of promoting the Welsh language by selling Welsh books and crafts, jewellery and gifts from local producers.

**Cyfleoedd Gwirfoddoli / Volunteering Opportunities:**

Oes gennych chi oriau sbâr i weithio yn y siop yn helpu cwsmeriaid? Darperir hyfforddiant llawn.

Do you have hours to spare to work in the shop helping customers? Full training is provided.

**Cysylltu / Contact:** siop@ogwen.org

# Ynni Ogwen

Mae Ynni Ogwen yn fenter gydweithredol sy’n gofalu am dyrbin trydan dŵr Afon Ogwen. Mae’r elw a geir o’r trydan yn cael ei ddefnyddio i ariannu prosiectau amgylcheddol a chymunedol yn Nyffryn Ogwen.

Ynni Ogwen is a cooperative venture which looks after the Ogwen River hydro electric turbine. Profit gained from the electricity is used to fund environmental and community projects in Dyffryn Ogwen.




**Cyfleoedd Gwirfoddoli**
**Volunteering Opportunities**

Mae angen gwirfoddolwyr i lanhau'r sgriniau yn yr afon a chadw'r tyrbin i redeg yn effeithlon. Darperir hyfforddiant llawn.

Volunteers are needed to clean the screens in the river and keep the turbine running efficiently. Full training provided.

**Cysylltu / Contact:**
ynni@ogwen.org




Anest

Anest ydw i a dwi'n byw yn Nyffryn Ogwen ers fy ngeni. Mi es i'r ysgol gynradd leol, Abercaseg a Phen y Bryn ac yna i Ysgol Dyffryn Ogwen. Symudais i Ysgol Tryfan yn 2019 ac ers hynny rwyf wedi cael persbectif allanol ac wedi sylweddoli pa mor arbennig ydi'r pentref a pherthynas clos pawb.

Mi gychwynnais wirfoddoli efo Siop Ogwen ar ôl haf llynedd, yn wreiddiol ar gyfer fy mhrosiect BAC i fy Lefel A. Ond ar ôl cwblhau fy 30 awr roeddwn dal yn dod 'nôl iwirfoddoli gan fy mod wir yn mwynhau gwneud. Roedd sgwrsio â phobl leol a helpu'r gymuned yn rhywbeth yr oeddwn eisiau ei barhau i wneud heb ddim amheuaeth, yn enwedig gan ei fod yn gymdeithas mor agos at fy nghalon. O ganlyniad fe ges i swydd yn gweithio yn y siop o gwmpas fy ngwaith ysgol.

Ers gweithio yma rwyf wedi derbyn nifer o sgiliau newydd. Cyn i mi gychwyn yn y siop, roeddwn yn berson eithaf swil ac yn ffeindio hi'n anodd cymdeithasu weithiau. Ond roedd hyn y cyfle gorau i fy ngwthio allan o fy "comfort zone" ac i wynebu fy ofnau. Ers hynny rwyf wedi datblygu fel person a rŵan yn llawer mwy hyderus. Rwy'n cychwyn sgyrsiau gyda chwsmeriaid ac yn gwybod sut i ddelio gyda sefyllfaoedd anodd, a ddim yn ofn i ofyn am gymorth, ac yn bwysicach, dwi wir yn mwynhau fy swydd.



Anest

I am Anest and I have lived in Dyffryn Ogwen since I was born. I went to the local primary school, Abercaseg and Pen y Bryn and then to Ysgol Dyffryn Ogwen. I moved to Ysgol Tryfan in 2019 and since then I have had an outside perspective and realized how special the village and everyone's close relationship is.

I started volunteering with Siop Ogwen after summer last year, originally for my BAC project for my A Level. But after completing my 30 hours I kept coming back to volunteer as I really enjoy doing it. Chatting with local people and helping the community was something I wanted to continue doing without a doubt, especially as it is a community so close to my heart. As a result I got a job working in the shop around my schoolwork.

Since working here I have received a number of new skills. Before I started in the shop, I was quite a shy person and found it difficult to socialize sometimes. But this was the best opportunity to push me out of my "comfort zone" and to face my fears. Since then I have developed as a person and am now much more confident. I start conversations with customers and know how to deal with difficult situations, and am not afraid to ask for help, and more importantly, I really enjoy my job.

# Gwirfoddoli / Volunteering

## Bws Ogwen

Mae Dyffryn Caredig yn gofalu am fflyd o gerbydau trydan sy'n cael eu defnyddio i ddarparu trafnidiaeth fforddiadwy, cynaliadwy o fewn ein cymuned.




Dyffryn Caredig looks after a fleet of electric vehicles which are used to provide affordable, sustainable transport within our community.



### Cyfleoedd Gwirfoddoli / Volunteering Opportunities

A fyddai gennych ddiddordeb mewn helpu fel gyrrwr cymunedol? Darperir hyfforddiant llawn.

Would you be interested in helping out as a community driver? Full training provided.

**Cysylltu / Contact:** huw@ogwen.org

## Beics Ogwen

Nod Beics Ogwen ydi hyrwyddo lles â'r amgylchedd trwy annog mwy o bobl i feicio yn amlach. Mae gennym feiciau arferol, trydanol a rhai hygyrch ar gael i logi i'r gymuned ac i ymwelwyr. Rydym hefyd yn rhedeg gweithdai trwsio beics a digwyddiadau beciau hygyrch.

Our aim with Beics Ogwen is to promote well-being and the environment by encouraging more people to cycle more often. We have a stock of regular, electric and accessible bikes for hire to the local community and visitors. We also run bike repair workshops and accesible bike events.

### Cyfleoedd Gwirfoddoli / Volunteering Opportunities

A fyddai gennych ddiddordeb mewn helpu gyda gweithdai neu ddigwyddiadau?

Would you be interested in helping out with workshops or events?

**Cysylltu / Contact:** beics@ogwen.org





Alun a Jan

Mae'r ddau ohonom yn wreiddiol o ardal Dyffryn Ogwen ac yn falch o gefnogi prosiectau cymunedol yr ar dal. Mae'n bleser cael gwirfoddoli yn ein cymuned, cyfarfod pobl newydd a hen gyfeillion! Mae gwaith gyrru cymunedol hefyd wedi golygu ymweld â llefydd newydd yn ein bro.

Rydym wedi gwirfoddoli gyda sawl prosiect dros y blynyddoedd yn cynnwys gyrru i brosiect Cadwyn Ogwen, helpu yn siop gymunedol Siop Ogwen a helpu efo sesiynau casglu sbwriel. Mae Al hefyd yn gwirfoddoli gyda'r Gofod Gwneud oherwydd ei brofiad o weithio gyda'r peiriannau a hefyd ei brofiad yn rhedeg busnes gwaith llechi ei hun. Mae'r gwaith gwirfoddol gyda'r Gofod Gwneud wedi cynnwys cynnal sesiynau creu gyda'r ysgolion lleol.

Mi fasa Jan a finnau'n awgrymu i unrhyw un wirfoddoli. Rydym yn mwynhau yn arw ac mae'n gyfle gwych i roi rhywbeth yn ôl i'r gymuned



Alun a Jan

We are both originally from the Dyffryn Ogwen area and are proud to support community projects in the area. It's a pleasure to volunteer in our community, meet new people and old friends! The community driving has also meant visiting new places in our area.

We have volunteered with several projects over the years including driving for the Cadwyn Ogwen project, helping in the Siop Ogwen community shop and helping with litter collection sessions.

Al also volunteers with the Maker Space because of his experience working with machines and his experience running his own slate work business. The voluntary work with the Maker Space has included leading sessions with local schools to help kids use laser printers and equipment to create products.

Both Jan and I suggest that anyone volunteer. We are really enjoying it and it's a great opportunity to give something back to the community.

# Gwirfoddoli / Volunteering

## Hwb Ogwen

Mae Hwb Ogwen yn dod a phobl at ei gilydd i gefnogi iechyd a lles, atal tlodi a chreu cymuned ofalgar sy'n edrych ar ol ein gilydd. Mae hyn yn cynnwys rhedeg banc bwyd sydd yn darparu parseli bwyd argyfwng, rhoi cyngor atal tlodi, trefnu digwyddiadau cymdeithasol ar draws y Dyffryn i drafod sut i arbed ynni, cadw'n gynnes a llawer mwy.  Mae Hwb Ogwen hefyd yn cynnal Swpar Chwaral yn fisol i roi cyfle i'r gymuned gymdeithasu a chael bryd o fwyd cynnes.

Hwb Ogwen brings people together to support health and well-being, combat poverty and create a caring community that looks after each other. This includes running a food bank that provides emergency food parcels, giving poverty prevention advice, organising social events across the Dyffryn to discuss how to save energy, keep warm and much more. Hwb Ogwen also hosts a monthly Swpar Chwaral to provide an opportunity for the community to socialise and have a warm meal.





### Cyfleoedd Gwirfoddoli / Volunteering Opportunities

A fyddai gennych ddiddordeb mewn helpu i baratoi a gweini bwyd yn ein Swpar Chwaral misol? Gellir darparu cymhwyster hylendid bwyd os oes angen.

Would you be interested in helping to prepare and serve food in our monthly Swpar Chwaral? Food hygiene qualification can be supplied if required.

Neu efallai eich bod yn rhan o grŵp a hoffai godi arian neu gasglu rhoddion i'r banc bwyd?

Or maybe you are part of a group that would like to raise funds or collect donations for the food bank?

**Cysylltu / Contact:** hwb@ogwen.org




Angharad

Fe wnes i symud o Fangor i ardal Ddyffryn Ogwen dros 20 mlynedd yn ôl gyda fy nheulu i fagu'r plant ac wedi byw yma ers hynny. Rwyf wedi bod yn gwirfoddoli gyda Swpar Chwaral ar brynhawniau Dydd Mercher. Rwy'n hunan cyflogedig ac roeddwn yn chwilio am rywbeth i wneud i gyfrannu at y gymuned.

Rwy'n mwynhau coginio ac yn hoff o greu ryseitiau yn dibynnu beth sydd yn y cwpwrdd! Sydd yn wych i mi gan rydwn yn erbyn rhoddion o fwyd fan Glwb Bwyd Dyffryn Gwyrdd ac angen meddwl ar fy nhraed am brydau maethlon. Mae gwirfoddoli yn y gymuned nid yn unig wedi helpu fy Nghymraeg ond hefyd dod i adnabod a chreu perthnasau newydd, ac adnabod yr holl bethau gwych sydd yn ddiwyd yn ein cymuned. Mae gwirfoddoli yn dod gyda chymaint o gyfleoedd fel hyfforddiant, datblygu sgiliau a dysgu rhai newydd.

Dwi'n falch iawn am y cyfle i wirfoddoli, braf iawn cael creu perthnasau newydd a chael bach mwy o fywyd cymdeithasol! Mae'r cyfle hefyd wedi rhoi amser i mi i ffwrdd o fy musnes ac wedi rhoi cyfle i mi feddwl am yr hyn rydw i eisiau a'r dyfodol.



Angharad

I moved from Bangor to the Dyffryn Ogwen area over 20 years ago with my family to raise my children and I have lived here ever since. I have been volunteering with Swpar Chwaral on Wednesday afternoons. I am self employed and was looking for something to do to contribute to the community.

I enjoy cooking and love to create recipes with anything in the cupboard, which is great as I volunteer with Swpar Chwaral to create nutritious meals with food donations from Dyffryn Gwyrdd's Food Club. Volunteering in the community has not only helped my Welsh but it has also helped me make new connections locally and recognize all the great things that are happening in our community. Volunteering comes with so many opportunities including training to develop new skills.

I am very proud of the opportunity to volunteer. It's really nice to be able to make connections and have a bit more of a social life!

The opportunity has also given me time away from my business and has given me a chance to think about what I want to do in the future.

# Gwirfoddoli / Volunteering

## Garddio / Gardening

Mae’r Gerddi Cymunedol yn anelu i hybu llesiant trwy greu gerddi cymunedol a rhandiroedd drwy Ddyffryn Ogwen, gan gynnwys Llys Dafydd, Gerddi Ffrancon a Tan Twr. Rydym yn awyddus i helpu datblygu mwy o ofodau fel hyn. Plîs cysylltwch os oes gallwch feddwl am lefydd eraill sydd yn addas.

The Community Gardens aim to promote wellbeing by creating gardens and allotments throughout the Dyffryn, including Llys Dafydd, Gerddi Ffrancon and Tan Twr. We are eager to help in developing more of these kinds of spaces. Please get in touch if you can think of other suitable locations.






**Cyfleoedd Gwirfoddoli**
**Volunteering Opportunities**

Mae sesiynau rheolaidd i wirfoddoli a datblygu sgiliau. Cysylltwch os hoffech cymryd rhan neu gynnig syniad.

There are regular sessions to volunteer and develop skills. Please get in touch if you would like to take part of offer an idea.

**Cysylltu / Contact:**
chris@ogwen.org





## Hel Sbwriel
## Litter Picking

Cadwch lygad ar ein cyfryngau cymdeithasol am ddigwyddiadau hel sbwriel i ymuno â nhw. Mae gennym hefyd offer hel sbwriel ar gael i'w fenthyg a gallwn helpu i drefnu casglu'r gwastraff ar ôl y digwyddiad.

Keep an eye on our social media for organised litter picking events to join. We also have litter picking equipment available to borrow and can help arrange collection of the waste after the event.

**Cysylltu / Contact:**
Swyddfa Partneriaeth Ogwen
01248 602131

CREU • CYMUNEDAU • GWYRDD

# GWYRDDNI

COMMUNITY • CLIMATE • ACTION

## CYNLLUN GWEITHREDU HINSAWDD CYMUNEDOL DYFFRYN OGWEN

**Cartrefi Ynni Effeithlon**
Gwybodaeth, cyngor a chymorth ymarferol

**Gŵyl Hinsawdd**
Hyrwyddo cyfleoedd a chysylltu pobl

**Mapio Mwsog**
Dysgu am, a dathlu rhyfeddodau lleol

**Grid Ynni Cymunedol**
Dyffryn ble rydym ni'n creu a storio ynni ein hunain

**Sut allwn ni yn Nyffryn Ogwen ymateb yn lleol i Newid Hinsawdd?**

**Parc Cinetig**
Creu ynni trwy gael hwyl

**Grŵp Ysgrifennu**
Ysgrifennu am natur a'r amgylchedd

**Trafnidiaeth Werdd**
Gwneud y dewis gwyrdd y dewis hawdd

**Gwefan Gweithredu**
Pwy, Be, Lle a Pryd ar un safle

**Gweithlu Cydweithredol Gwyrdd**
Perchnogaeth a swyddi cynaliadwy

**Tyfu Bwyd Cymunedol Adfywiol**
Tyfu, dysgu a rhannu

## DEWCH I'N HELPU I ADEILADU'R DYFODOL

# BYDDWCH YN RAN O HYN

Am ragor wybodaeth ac i gymryd rhan sganiwch y côdQR

ogwen@gwyrddni.cymru
www.gwyrddni.cymru
07766 793945

PARTNERIAETH OGWEN

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

CREU • CYMUNEDAU • GWYRDD

# GWYRDDNI

COMMUNITY • CLIMATE • ACTION

## DYFFRYN OGWEN COMMUNITY CLIMATE ACTION PLAN

**Energy Efficient Homes**
Information, advice and practical support

**Gŵyl Hinsawdd Festival**
Promoting opportunities and connecting people

**Moss Mapping**
Learning about and celebrating local wonders

**Community Energy Grid**
A valley where we create and store our own energy

**How can we in Dyffryn Ogwen respond locally to Climate Change?**

**Kinetic Park**
Creating energy by having fun

**Writing Group**
Writing about nature and the environment

**Green Transport**
Making the green choice the easy choice

**Actions Website**
Who, What, Where and When on one site

**Green Workers' Co-operative**
Sustainable jobs and ownership

**Regenerative Community Food Growing**
Growing, learning and sharing

## COME AND HELP US BUILD THE FUTURE

# BE PART OF THIS

For more information and to get involved scan the QRcode


ogwen@gwyrddni.cymru
www.gwyrddni.cymru
07766 793945



PARTNERIAETH OGWEN
CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

# Ffurflen Gwirfoddoli
# Volunteering Form

Enw / Name: ____________________

Rhif Cyswllt / Contact Number: ____________________

Cyswllt Argyfwng
Emergency Contact: ____________________

Cyfeiriad / Address: ____________________

____________________

Ebost / Email: ____________________

Pa weithgareddau gwirfoddoli sydd gennych diddordeb ynddyn nhw?
In which volunteering activities are you interested?

Argaeledd / Availability :

| **Llun**<br>**Mon** | **Mawrth**<br>**Tue** | **Merch**<br>**Wed** | **Iau**<br>**Thurs** | **Gwen**<br>**Fri** | **Sad**<br>**Sat** | **Sul**<br>**Sun** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| AM | AM | AM | AM | AM | AM | AM |
| PM | PM | PM | PM | PM | PM | PM |

Bydd Partneriaeth Ogwen yn defnyddio'r wybodaeth yr ydych wedi'i darparu uchod i gadw mewn cysylltiad â chi er mwyn eich diweddaru ar ein datblygiadau a digwyddiadau yn y dyfodol a marchnata. Ni fydd ein manylion yn cael eu rhannu â thrydydd parti.

Partneriaeth Ogwen will use the information you have provided above to keep in touch with you and to provide you with updates on our future developments, events and marketing. Your details will not be shared with third parties.